Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024: Camau gweithredu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Addysg – sicrhau y gall plant a phobl ifanc fod y gorau y gallant fod

Blaenoriaeth 1.1 Bydd pob plentyn a herson ifanc yn gwella ei lefelau cyrhaeddiad

Camau gweithredu:

- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i nodi'r plant hynny y mae angen cefnogaeth benodol arnynt yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol.
- Byddwn yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd mewn angen, gan gynnwys teuluoedd y Lluoedd Arfog, i leihau'r potensial i blant gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau perthnasol eraill i gefnogi a darparu cyfleoedd profiad gwaith, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth neu hyfforddiant addysg (NEET) ôl-16
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob disgybl, yn enwedig y rhai o deuluoedd incwm isel a'r rhai y mae COVID-19 wedi cael effaith benodol arnynt, yn gallu cael mynediad at ddyfeisiau digidol priodol
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i nodi'r plant hynny y mae angen gwell cefnogaeth anacademaidd arnynt o ganlyniad i effaith COVID-19 i'w helpu i gyflawni eu potensial

Blaenoriaeth 1.2 Bydd pob plentyn o oedran ysgol yn cael gwell lles a mwy o ymdeimlad o berthyn

Camau gweithredu:

- Byddwn yn parhau i weithio gyda disgyblion, rhieni/gofalwyr ac ysgolion i leihau nifer yr achosion o ddiffyg presenoldeb a gwaharddiadau ym mhob un o'n hysgolion
- Byddwn yn parhau i weithio gyda rhieni/gofalwyr plant cyn oed ysgol i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr ysgol
- Byddwn yn casglu data gan ysgolion ac yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu o bob math ac yn gweithio gyda hwy i fynd i'r afael â thueddiadau/phroblemau
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau perthnasol eraill i gefnogi disgyblion sy'n dioddef bwlio ac yn gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud y bwlio
- Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau perthnasol eraill i sicrhau bod eu hamgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn feithringar, a bod parch ac ystyriaeth lawn yn cael eu rhoi i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i archwilio buddion cyflogi swyddogion cyswllt teuluol neu rolau tebyg, gan gynnwys dull clwstwr, allan o gyllidebau dirprwyedig er mwyn cefnogi disgyblion a rhieni i oresgyn heriau sy'n effeithio'n negyddol ar ddysgu a lles.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc 'yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol ac yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol'.
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod addysgu'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu natur amlethnig Cymru

Iechyd a Lles – hybu lles ac iechyd meddwl da a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu o ran iechyd meddwl

Blaenoriaeth 2.1 Bydd ein Staff yn cael eu cefnogi a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

Camau gweithredu:

- Fel cyflogwr byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi
- Fel cyflogwr byddwn yn diweddaru ac yn gweithredu polisïau i fynd i'r afael ag iechyd meddwl yn y gweithle
- Byddwn yn darparu gwybodaeth i weithwyr am iechyd meddwl ac yn cyfeirio pobl at wasanaethau cefnogi
- Byddwn yn parhau i weithredu ein Cynllun Gweithredu Adduned Cyflogwr Amser i Newid Cymru
- Byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i staff i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl

Blaenoriaeth 2.2 Gall ein plant a'n pobl ifanc gael mynediad at gefnogaeth briodol

Camau gweithredu:

- Byddwn yn ailgynllunio ein systemau sy'n ymwneud â chefnogaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl i ddarparu mynediad integredig mwy syml at wasanaethau

Blaenoriaeth 2.3 Bydd ein cymunedau y mae angen cefnogaeth arnynt yn gallu defnyddio gwasanaethau priodol

Camau gweithredu:

- Byddwn yn cadw at ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan sicrhau na fydd unrhyw gyn-filwr nac aelod teulu rhywun sy'n gwasanaethu neu'n sy'n gyn-filwr, dan anfantais oherwydd iddyn nhw wasanaethu wrth ddefnyddio cefnogaeth a gwasanaethau iechyd a lles
- Byddwn yn cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau cyfraddau hunanladdiad yn y fwrdeistref sirol
- Byddwn yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am iechyd meddwl ac yn cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth o'n gwefan
- Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i helpu i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar staff iechyd a gofal cymdeithasol
- Byddwn yn gweithio o fewn Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) rhanbarthol y GIG i ymgysylltu â phawb, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn y rhaglen diogelu iechyd a byddwn hefyd yn sicrhau bod pawb y mae angen iddynt gael mynediad at y gwasanaeth POD yn gallu gwneud hynny, gan sicrhau bod mynediad yn darparu ar gyfer pawb

Diogelwch Personol - sicrhau bod pobl a chymunedau'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a cham-drin

Blaenoriaeth 3.1 Mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

Camau gweithredu:

- Cynyddu nifer yr adroddiadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghastell-nedd Port Talbot, drwy gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau
- Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad difrïol bob amser yn anghywir
- Rhoi mynediad cyfartal i'r holl ddioddefwyr at wasanaethau sy'n cynnwys adnoddau priodol o safon, sy'n seiliedig ar anghenion a chryfder ac sy'n ymatebol i ryw ar draws Castell-nedd Port Talbot

Blaenoriaeth 3.2 Mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

Camau gweithredu:

- Byddwn yn gweithio gydag aelodau grwpiau cydraddoldeb lleol, partneriaid a'n cymunedau i annog adrodd am ddigwyddiadau/droseddau casineb a sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth sy'n addas at y diben
- Byddwn yn cefnogi'r defnydd o Gerdyn Mynediad Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (i helpu i chwalu rhwystrau ieithyddol wrth ddefnyddio gwasanaeth)
- Byddwn yn cefnogi'r Gymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes yn yr ymarfer Proffilio Cymunedol yn ogystal ag ymestyn ei chwmpas
- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i adborth yr Arolwg Cydlyniant Cymunedol
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ddeall yn well brofiadau byw aelodau o'n cymunedau BAME, yn enwedig mewn perthynas â'u profiadau o ddigwyddiadau/droseddau casineb

Cyflogaeth – sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymuned yn fwy, bod ein polisïau'n deg ac yn gyfiawn a bod bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau

Blaenoriaeth 4.1 Mae ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol ac fe'i cefnogir gan ein polisïau

Camau gweithredu:

- Byddwn yn sicrhau proses recriwtio a dethol deg a thryloyw sy'n annog cronfa dalent ehangach ac yn hwyluso cydbwysedd mwy cyfartal rhwng y rhywiau
- Byddwn yn hyrwyddo, yn hwyluso, yn dadansoddi ac yn monitro hyblygrwydd yn y gweithle ar bob lefel er mwyn galluogi menywod i wneud cynnydd a sicrhau cydnawsedd â gweithlu sy'n cynnwys yr holl genedlaethau
- Byddwn yn casglu ac yn monitro data sy'n gysylltiedig â gweithio hyblyg yn fanylach
- Byddwn yn craffu ar y nifer sy'n cymryd absenoldeb Rhiant a Rennir i fonitro cydbwysedd rhwng y rhywiau ac annog pobl i fanteisio arnynt ar draws y rhywiau
- Yn ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog, byddwn yn cynnwys cynllun cyfweld gwarantedig ar gyfer aelodau'r Lluoedd Arfog a ryddhawyd yn ddiweddar.
- Byddwn yn ystyried sut mae ein polisïau a'n harferion yn effeithio ar ein staff sy'n cael eu cyflogi ar gontractau achlysurol a chontractau dros dro a chontractau rhan-amser.
- Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth BAME, gan ddatblygu cyfres o gamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith gweithlu'r cyngor
- Byddwn yn gweithio i wella ein Diwylliant Corfforaethol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei werthfawrogi a'i barchu

- Byddwn yn gweithio gyda staff i benderfynu ar yr awydd i ffurfio Fforwm Gweithwyr BAME i helpu i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed
- Byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs) i'w helpu i ennill profiad a sgiliau er mwyn mynd i fyd cyflogaeth
- Byddwn yn ailedrych ar hyfforddiant staff ar gydraddoldebau, yn enwedig ailymweld â dealltwriaeth pobl o anabledd, gan gynnwys anableddau nad ydynt yn weladwy

Blaenoriaeth 4.2 Lleihau ein Bylchau Cyflog rhwng y Rhywiau

Camau gweithredu:

- Byddwn yn gweithredu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Rhyw y Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg
- Byddwn yn mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn y cyngor drwy weithredu Cynllun Gweithredu Cyflogwyr Chwarae Teg

Cyfranogiad – sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb a bod pobl a chymunedau'n gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Blaenoriaeth 5.1 Mae ein gwasanaethau - digidol a thraddodiadol - yn hygyrch i bawb

Camau gweithredu:

- Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein gwefan yn barhaus i wella ei hygyrchedd
- Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl a sefydliadau yn eu hwynebu i gymryd rhan ar-lein
- Byddwn yn gweithio i nodi'r cyfleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddinasyddion wella eu sgiliau a'u dealltwriaeth digidol
- Byddwn yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Diogelu i atal seiber-droseddu ac amddiffyn pobl rhag ecsbloetiaeth
- Byddwn yn gwella mynediad ffisegol at gyfleusterau'r pwyllgorau yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot
- Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau niferus sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog ar gael ar-lein, ond hefyd dros y ffôn drwy Borth y Cyn-filwyr.
- Byddwn yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau lleol i archwilio trefniadau amgen i gael mynediad at wasanaethau manwerthu i'r rhai sy'n cael anawsterau oherwydd mynediad digidol cyfyngedig etc.
- Byddwn yn parhau i gefnogi'r egwyddorion allweddol sydd wedi'u cynnwys ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): gan gynnwys rhaglenni i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n sefyll mewn etholiadau, a chynhyrchu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd

Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

Camau gweithredu:

- Byddwn yn cefnogi grwpiau lleol, gan gynnwys Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, i ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol
- Byddwn yn datblygu ein cysylltiadau â'n cymunedau ffydd ymhellach
- Byddwn yn darparu gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ar gyfer y rheini sy'n dymuno dysgu Cymraeg a/neu Saesneg
- Byddwn yn datblygu/cryfhau polisïau i ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio ac yn cefnogi ffurfio grŵp newydd i fynd i'r afael â hyn
- Byddwn yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned Draws i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth
- Byddwn yn datblygu dull seiliedig ar hawliau wrth ymdrin â'n gwaith, gan ganolbwyntio ar hawliau plant drwy weithio gyda'r Maer Ieuenctid, y Cyngor Ieuenctid ymhlith eraill
- Byddwn yn sefydlu dulliau ymgysylltu, er enghraifft Panel Dinasyddion newydd, ac yn defnyddio ymatebion i sicrhau bod gwaith llunio polisïau a datblygu gwasanaethau'r cyngor yn cael ei lywio gan yr hyn sy'n bwysig i bobl
- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu i leihau unigedd ac unigrwydd, a deimlir gan lawer pan fyddant yn gadael y gwasanaethau, neu gan aelod o'r teulu pan fydd yr aelod o'r teulu sy'n gwasanaethu yn cael ei fyddino ar gyfer gwasanaeth neu hyfforddiant gweithredol
- Byddwn yn gweithredu'r cynllun gweithredu i gefnogi'r Wobr Siarter Ddigidol, yr ydym wedi cael cydnabyddiaeth amdani yn ddiweddar
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau perthnasol i fynd i'r afael â'n hanes cyffredin ac archwilio ffyrdd o fynegi hyn yn well o fewn ein cymunedau
- Byddwn yn cefnogi busnesau bach lleol i weithredu gofynion newidiol canllawiau Llywodraeth Cymru mewn ymateb i COVID-19

Safonau byw – gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

Blaenoriaeth 6.1 Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i liniaru tlodi

Camau gweithredu

- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau ar gyfer y rheini ag incwm gwario net isel.
- Byddwn yn croesawu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd
- Byddwn yn sicrhau bod y teuluoedd hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael cymorth drwy gydol gwyliau'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau a busnesau lleol i archwilio sut i gynnal mynediad at fwydydd diwylliannol priodol yn ystod cyfnodau o symud cyfyngedig/gyfnodau clo wrth symud ymlaen.

Blaenoriaeth 6.2 Bydd pobl yn elwa o raglenni a chymorth i fyw mor annibynnol â phosib

Camau gweithredu:

- Byddwn yn cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a pharhau i ddarparu ystod gynaliadwy o wasanaethau sy'n ateb y galw, gan alluogi unigolion i aros gartref a chynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo modd, gan dderbyn cefnogaeth briodol ar adegau o angen
- Byddwn yn parhau i helpu pobl i ddysgu a rhyngweithio ag eraill fel y gallant fod yn rhan o'u cymunedau
- Byddwn yn helpu i gefnogi pobl i fyw bywyd mor annibynnol â phosib

Blaenoriaeth 6.3 Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn cael eu cynnal neu wella

Camau gweithredu:

- Byddwn yn ystyried parhau â'r cynllun Diogel ac Iach i helpu i gefnogi aelodau bregus ein cymunedau
- Byddwn yn cyfathrebu'n well â grwpiau diamddiffyn drwy ystod eang o fformatau i'w hysbysu a'u cefnogi'n well i fyw bywyd mor llawn â phosib yn ystod y pandemig Coronafeirws presennol
- Byddwn yn cefnogi mentrau cludiant cymunedol
- Byddwn yn arwain y gwaith trafnidiaeth rhanbarthol gyda Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mesurau

Caiff y mesurau eu hailasesu wrth i gamau gweithredu gael eu hadolygu a'u datblygu ymhellach a chânt eu diwygio neu eu disodli fel y bo'n briodol.

Addysg

- Nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i addysg bellach, cyflogaeth, hyfforddiant (wedi'u gwahanu)
- Cyrhaeddiad cyfnod allweddol (wedi'i wahanu)
- Gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau/y rhai sy'n cael eu gorfodi i gael eu haddysgu gartref/trosglwyddiadau i ysgolion eraill (wedi'u gwahanu)
- Nifer yr achosion o fwlio mewn ysgolion – cynradd ac uwchradd (wedi'u gwahanu)
- Nifer yr ysgolion sy'n cynnwys grwpiau ffydd/ethnig/anabl yn rheolaidd mewn gwersi/gwasanaethau
- Nifer/canran y plant sy'n ystyried bod eu dealltwriaeth o wahanol grefyddau/ethnigrwydd ac anabledd wedi gwella yn dilyn cyfranogiad o'r fath

Iechyd a Lles

- Nifer y plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth emosiynol/cwnsela
- Nifer y plant/oedolion/bobl hŷn sy'n dweud eu bod yn hapus
- Nifer yr adroddiadau am hunanladdiad
- Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen
- Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed gan y gwasanaethau cymdeithasol

Diogelwch Personol

- Nifer y bobl sy'n defnyddio Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig/gwasanaethau cymorth
- Cynyddu neu leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig
- Cynyddu neu leihau'r nifer sy'n adrodd am droseddau casineb
- Nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel
- Seiber-droseddu – mesur priodol i'w ystyried
- Troseddau Casineb a'u datrys - mesur priodol i'w ystyried
- Pobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned (arolwg cenedlaethol i Gymru)

Cyflogaeth

- Data cydraddoldeb – gwybodaeth o'r Adroddiad Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth Blynyddol
- Nifer y bobl sydd wedi manteisio ar gyfleoedd gyda'r cyngor ar gynlluniau cyflogaeth fel Kickstart
- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau - gwybodaeth o'r Adroddiad Cydraddoldeb Mewn Cyflogaeth Blynyddol
- Nifer y staff sy'n ymuno â'r fforwm staff

Cyfranogiad

- Nifer y gwasanaethau cyngor sydd ar gael ar-lein
- Nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein y cyngor
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn arolygon cwsmeriaid a holiaduron y cyngor
- Nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau 'am ddim'/grwpiau cymunedol; Grwpiau/mentrau newydd a grëwyd; Gweithgaredd Cydlynydd Ardal Leol

Safonau Byw

- Nifer y bobl y mae angen gofal preswyl arnynt
- Nifer y gofalwyr sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Nifer/canran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim
- Nifer/canran y tribiwnlysoedd apeliadau Adran Gwaith a Phensiynau a gefnogwyd gan yr Uned Hawliau Lles, ac a enillodd
- Nifer y bobl a gefnogir drwy'r Uned Hawliau Lles
- Nifer y bobl a helpodd gyda hyfforddiant a rhagor o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth
- Lefelau data tlodi plant
- Nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd